
PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 8 | Chwefror 22, 2024 | 50c.

## GWADDOL LLOYD GEORGE YN GAZA

Yng ngogledd Israel, 10 milltir i'r gorllewin o Nasareth, mae kibbutz yn Nyffryn Jesreel o'r enw Ramat David, lle mae tua 500 o bobl yn byw. Cafodd ei sefydlu yn 1926, a'i enwi, nid ar ôl y Brenin Dafydd, ond y Cymro David Lloyd George, a hynny i gydnabod ei ran allweddol yn galluogi ailsefydlu cartref i'r Iddewon yn y wlad a roddwyd iddynt gan Dduw, yn ôl yr hanes yn yr Hen Destament.



### Y troi allan mawr


Mwy am Lloyd George yn y man. Yn gyntaf, dewch 'nôl i'r flwyddyn 135, a methiant trychinebus ail wrthryfel mawr yr Iddewon yn erbyn y Rhufeiniaid. Aeth yr Ymerawdwr Hadrian, dyn y wal enwog, ati i ddelio â'r genedl drafferthus yma unwaith ac am byth. Gwasgarwyd rhan helaeth o'r bobl fel caethweision trwy wledydd eraill yr Ymerodraeth; codwyd teml newydd i'r duw Iau ar adfeilion y Deml yn Jerwsalem; cafodd yr enw Jwdea ei ddileu, a bedyddio'r wlad yn Syria Palestina.

### Sail yr ysgrythur

Fe aeth 1,800 o flynyddoedd heibio. Erbyn dechrau'r 20fed ganrif, roedd y Seionwyr am weld Iddewon alltud yn cael ymfudo i'r wlad, gan bwyso ar broffwydoliaeth Moses: 'Bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn adfer llwyddiant iti ac yn tosturio wrthyt, ac yn dy gasglu eto o blith yr holl genhedloedd y gwasgarodd di ynddynt. Pe byddit wedi dy yrru i'r cwr pellaf dan y nef, byddai'r ARGLWYDD dy Dduw yn dy gasglu ac yn dy gymryd oddi yno. Daw'r ARGLWYDD dy Dduw â thi i'r wlad a feddiannodd dy hynafiaid, a byddi dithau'n ei meddiannu; bydd ef yn dy lwyddo ac yn dy wneud yn fwy niferus na'th hynafiaid.' (Deuteronomium 30: 5–6)

### Datganiad Balfour

Gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf yn ei anterth, roedd y Prif Weinidog David Lloyd George yn awyddus i ennyn cefnogaeth Iddewon yn Rwsia a'r Unol Daleithiau. Yn 1917 fe wnaeth yr Ysgrifennydd Tramor, Arthur Balfour, gyhoeddi datganiad oedd yn dweud bod y llywodraeth yn ffafrio sefydlu 'cartref cenedlaethol' i'r Iddewon ym Mhalestina ac am wneud eu gorau glas i wireddu hynny. Pwysleisiwyd na ddylid gwneud dim i amharu ar hawliau sifil a chrefyddol y trigolion oedd yn byw yno'n barod.



### Sefydlu'r wladwriaeth

Ar ôl i Brydain gipio'r tiroedd hynny oddi wrth yr Ymerodraeth Ottoman ar ddiwedd y rhyfel, dechreuodd miloedd lawer o Iddewon ymfudo i Balestina, lle'r oedd dros 90% o'r boblogaeth yn Gristnogion neu'n Fwslemiaid. Erbyn 1936, roedd hanner miliwn o Iddewon wedi ymsefydlu yno, ac fe wnaeth yr Arabiaid godi mewn gwrthryfel yn erbyn rheolaeth Prydain. Ym 1948, cafodd gwladwriaeth newydd Israel ei chydnabod. Bu rhyfel cartref gwaedlyd, a gorfodwyd tri chwarter miliwn o Balestiniaid i adael eu cartrefi ac ymsefydlu yn Gaza a'r Llain Orllewinol.

### Canmol Lloyd George

Mae David Lloyd George yn arwr mawr i'r Seionwyr hyd y dydd heddiw. Ar wefan y Friends of Zion Museum yn Jerwsalem mae'r geiriau hyn: 'As Prime Minister of the UK, David Lloyd George played a significant role in forming a Jewish homeland in Palestine, a stance which legitimized the Zionist dream. We thank Lloyd George. Without his boldness and belief in the Zionist vision, the Jewish state certainly would not have become a reality.'

### Ei hunan-ymffrost

Roedd Lloyd George hefyd yn ymffrostio am ei ran yn sefydlu'r Israel newydd. Wrth annerch yr English Zionist Federation meddai: 'Roeddwn i'n Brif Weinidog y wlad hon pan ffurfiwyd y syniad o'r Cartref Cenedlaethol Iddewig fel polisi'r Wladwriaeth yn Natganiad Balfour. Llywyddais y Cabinet a roddodd fynegiant i'r polisi hwnnw.' Yn ogystal ag unrhyw fwriad gwleidyddol, mae'n amlwg bod ei fagwraeth mewn capel Cymraeg wedi tanio brwdfrydedd Lloyd George o blaid y Seionwyr. 'Fe wnes i glywed am Jezreel, Carmel a Seion ymhell cyn imi ddod i wybod am fodolaeth Bro Morgannwg neu Bumlumon yn fy ngwlad fy hun,' meddai.

*parhad ar dudalen 2*

## BETH YW GWRTH-SEMITIAETH?

Mae gwrth-Semitiaeth yn destun llosg yn y newyddion y dyddiau hyn. Ond beth yn union ydyw? Yn syml, gwrth-Semitiaeth yw casineb neu ragfarn tuag at y genedl neu unigolion Iddewig, sy'n cynnwys gwadu eu hawl i'w gwlad. O gofio'r erlid a fu ar yr Iddewon ar hyd y canrifoedd, ac yn enwedig yn ystod cyfnod erchyll yr Holocost, hawdd deall pam fod gwrth-Semitiaeth yn beth gwrthun a pheryglus.

Dyna pam mae cymaint o wleidyddion a gwledydd yn hynod ofalus yn eu hymateb (neu ddiffyg ymateb) i'r ymosodiad anferth ar Gaza, sy'n ganlyniad y lladdfa ffiaidd gan Hamas ar 7 Hydref. Maent yn ofni'r cyhuddiad o wrth-Semitiaeth am feirniadu ymddygiad llywodraeth a lluoedd arfog Israel.

Eto, gyda bron i 30,000 o bobl Gaza wedi'u lladd, gan gynnwys miloedd lawer o blant, a channoedd o filoedd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi ac yn wynebu newyn, ydy beirniadu llywodraeth Benjamin Netanyahu yn gyfystyr â gwrth-Semitiaeth? Rhaid nad oedd y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol yn credu hynny pan wnaethant orchymyn Israel i atal eu milwyr rhag cyflawni hil-laddiad yn Gaza.

**AL**

# YR ANNIBYNWYR A CHREDO NICEA



Ar 8 Chwefror, rhennais mewn gweminar a drefnwyd gan Gyngor Eglwysi'r Byd i'n cael ni oll i feddwl am Gredo Nicea. Cytunwyd ar y credo yng Nghyngor Nicea yn 325 OC. Felly bydd y flwyddyn nesaf, 2025, yn nodi ei ben-blwydd yn 1700 mlwydd oed. Mae'n un o gredoau hynaf yr Eglwys Gristnogol ac fe'i cydnabyddir gan bron bob eglwys ac enwad fel datganiad ecwmenaidd o'r ffydd sy'n sylfaen yr Eglwys. Nid ydym yn defnyddio'r credoau yn rheolaidd fel Annibynwyr, wrth gwrs, ond cofiaf inni gytuno, pan luniwyd ein Llyfr Gwasanaeth a gyhoeddwyd yn 1998, i gynnwys y credo fel mynegiant clasurol o'r ffydd. Byddwch yn gyfarwydd â rhai o'i ddatganiadau sylfaenol o'n cred gyffredin:

- 'Credwn yn yr un Duw, y Tad Hollalluog, Creawdwr nef a daear, pob peth gweledig ac anweledig ...'
- 'Credwn yn yr un Arglwydd, Iesu Grist, unig Fab Duw ...'
- 'Credwn yn yr Ysbryd Glân, yr Arglwydd, Rhoddwr bywyd ...'
- 'Credwn yn yr un Eglwys lân, gatholig ac apostolaidd ...'

Yr hyn sy'n arbennig o syfrdanol, fe ymddengys i mi, yw bod tua 300 o esgobion (ynghyd â dau offeiriad a diacon o'u heglwysi) o bedwar ban yr Ymerodraeth Rufeinig y pryd hwnnw wedi gallu dod ynghyd yn y Cyngor, ar wahoddiad yr Ymerawdwr Cystennin, cytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r ffydd a thrwy hynny anelu at sicrhau heddwch a harmoni o fewn yr Ymerodraeth. Y cwestiwn allweddol a heriodd yr arweinwyr Cristnogol hyn oedd, 'Pwy yw Iesu Grist a sut rydyn ni'n ei ddeall?' (Gyda llaw, yn yr eicon hwn o'r Cyngor, y person sydd wedi ei hyrddio i'r llawr o flaen yr ymerawdwr a'r esgobion yw Ariws, yr oedd ei ddealltwriaeth o Iesu fel un NAD yw'n 'genedledig o'r Tad cyn yr holl oesoedd', wedi'i wrthod fel heresi gan y Cyngor. Nid dyma'r man i ddechrau trafod ai Ariws neu Gyngor Nicea oedd agosaf at y gwirionedd am Iesu! Ond bydd gan bawb ohonom farn ar y mater, mae'n siŵr gen i.) Felly roedd yna resymau gwleidyddol yn ogystal â rhesymau diwinyddol y tu ôl i'r ymgais hon i gytuno ar ddatganiad o ffydd yn y 4edd ganrif OC. A fyddent fyth wedi dychmygu y byddai Cristnogion ledled y byd, yn 2025, 1700 mlynedd yn ddiweddarach, yn dathlu ac yn myfyrio ar eu 'credo' a'i arwyddocâd a'i ystyr yn yr 21ain ganrif?

Teitl y gweminar oedd, 'O Nicea, cydgerdded tuag at undod: dechrau dechreuad newydd'. Nodais ambell syniad allai fod o ddiddordeb i ni fel Annibynwyr.

- Hon oedd y gyffes ffydd gyntaf gan yr un Eglwys fyd-eang wedi cyfnod y Testament Newydd.
- Roedd yn fath o *magna carta*, yn ymateb ar y cyd i gwestiwn Iesu, 'Pwy ddwedwch chwi ydwyf fi?'
- Mae'r credo hwn yn rhan bwysig, ynghyd â'r Beibl, wrth gwrs – sef awdurdod pennaf ein ffydd – o'n hetifeddiaeth Gristnogol gyffredin ar hyd y canrifoedd.
- Defnyddiodd Cyngor Nicea iaith ei ddydd i fynegi ffydd gyffredin. Pa iaith allwn ni ei defnyddio i fynegi ein ffydd yn ystyrlon yn ein cyd-destun cymdeithasol ni yng Nghymru heddiw?
- Sut gallwn ni fod yn agored i wahanol syniadau a daliadau ein gilydd o'r ffydd a fynegir yn y credo hwn, a dysgu ac elwa oddi wrthynt?
- Disgrifiodd un siaradwr 2025 fel Blwyddyn yr Ysbryd Glân, cyfnod pan mae angen i ni, fel Cristnogion o gwmpas y byd, fod yn agored i waith yr Ysbryd Glân sy'n ein hadnewyddu, ein cryfhau a'n hysbrydoli i undod, cytgord a phartneriaeth ddyfnach mewn addoliad, tystiolaeth a gwasanaeth.

A allai hyn fod yn gyfle i ni fel Annibynwyr ac fel Cristnogion yng Nghymru feddwl am ein ffydd gyffredin, gan ddefnyddio rhai o'r adnoddau ar gyfer addoli, astudio a gweddïo a fydd ar gael? Gallai fod yn ymarfer adeiladol a chyffrous iawn. Beth amdani?

**Noel Davies**

# GWADDOL LLOYD GEORGE YN GAZA – parhad

**Barn haneswyr**

Ond nid yw haneswyr mor garedig wrtho. Dywedodd Gardner Thompson bod 'polisi annoeth' David Lloyd George wedi cael canlyniadau trychinebus yn y Dwyrain Canol. Doedd e ddim wedi rhagweld y byddai'r Palestiniaid yn siŵr o ymateb i goloneiddio'u gwlad, meddai Gardner, a dylai'r hyn sy'n digwydd nawr fod yn rhybudd i wleidyddion cyfoes i ystyried realiti cyn ymyrrid ym materion pobl a gwledydd pell. A dywed Jonathan Schneer: 'Lloyd George's wishful thinking sowed dragons teeth which produced a murderous harvest, that we're still harvesting today.'

P'run ai'r Cymro oedd yn gyfrifol neu beidio, prin y gall neb ddadlau am natur y cnwd yn y cyfnod torcalonnus hwn.

**Alun Lenny**

# PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

## Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 22 2024 RHIF 156

## 'Emynau Coll y Werin' – Lleuwen Steffan



Llun: MCPhotographie29

Peth rhyfedd, am wn i, ydy disgwyl yr annisgwyl. Ond yn sicr dyna oedd fy mhrofiad i wrth edrych ymlaen at berfformiad Lleuwen Steffan yn y Morlan, Aberystwyth. A ches i mo fy siomi.

Mae yna hen gêm, yn does, pwy fyddai'ch cwmni delfrydol chi dros ginio? Fy ateb parod i bob amser ydy Steve Eaves, Lleuwen a Manon. Allwn i ddim dychymyg cwmni hyfrytach na difyrrach. Dwi rioed wedi siarad efo'r tri gyda'i gilydd ac fe hoffwn i weld y berthynas rhyngddyn nhw. Achos o ran eu bywyd celfyddydol, cyhoeddus, dwi'n gweld themâu tebyg yn rhedeg drwy eu gwaith ond hefyd drwy eu personoliaethau. Un o'r pethau hynny ydy eu hysbrydolrwydd nhw.

Maen nhw wedi eu gwreiddio yn y traddodiad Cymraeg a Chymreig (er mai ein lwc aruthrol ni ydy mai yma y dewisodd Steve fwrw'r gwraidd hwnnw), ond heb eu llyffetheirio ganddo fo chwaith (am yr un rheswm, efallai).

Petai enwadaeth yr unfed ganrif ar hugain yn gymeriad mewn mytholeg Roegaidd – fel Sisyphus yn gwthio craig i fyny mynydd dro ar ôl tro – fe fyddai ein cymeriad ni wedi ei dynghedu i gerdded ymlaen gan edrych am yn ôl yn dragwyddol.

Mae'r berthynas yna rhwng y gwraidd a'r blagur, rhwng bod yn ymwybodol o'r gorffennol ond yn gallu cadw ein llygad ar y lôn ymlaen, yn dyngedfennol.

A dyna graidd y perfformiad i mi.

Yn fras, fel dywedodd hi ar y dechrau – mewn oes ôl-Gristnogol, sut mae edrych ar ein traddodiad i weld be ydyn ni wedi ei ennill, be ydyn ni wedi ei golli a sut allwn ni symud ymlaen.

Roedd ffurf a chynnwys ei pherfformiad yn clymu i gyfleu hyn.

Ei phresenoldeb etheraidd hi ei hun yn canu deuawd gyda'r gorffennol, yn drosiadol ac yn llythrennol.

Cododd leisiau o'r gorffennol a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ganu deuawd gyda nhw. Weithiau doedd dim modd gwahaniaethu rhwng y ddau lais, rhwng y gorffennol a'r presennol; dro arall roedd yna wrthdaro.

Dechreuodd drwy ailadrodd un llinell o emyn – 'o am dreiddio i'r adnabyddiaeth'; ailadroddodd hi fel *mantra*, a dyna osod y trywydd. Treiddio i adnabyddiaeth o draddodiad ond treiddio i adnabyddiaeth ysbrydol ddyfnach yn ogystal.

Roedd ei brwdfrydedd dros ei thestun yn amlwg – fyddai'n well gen i ar brydiau fod wedi clywed mwy o'r cynnyrch na'r cefndir, nid nad oedd o'n eithriadol o ddiddorol. Ond yn bwysicach na hynny oedd ei pharch amlwg hi at yr unigolion yr oedden ni'n clywed eu lleisiau nhw. Roedd hi'n eu trin nhw fel y byddech chi am iddi drin eich hen nain, gyda gofal, parch a chariad.

Geiriau ola'r perfformiad oedd: 'Tra bydda' i byw, bydd dy gân o fewn clyw. Amen.'

Eto'r amwysedd o gyfeirio at y traddodiad, at yr unigolion yr oedd hi'n rhannu'r llwyfan gyda nhw, ac at Grist.

'Mae dynoliaeth yn methu,' meddai Lleuwen wedyn. 'Sgen i ddim ateb ond 'dan ni'n addoli'r pethau rong. Er, dwi ddim yn gwybod be ydy'r peth iawn i'w addoli chwaith.'

A dyna, efallai, fyddai man cychwyn fy sgwrs i dros banad efo hi a'i thad a'i chwaer.

*Rocet Arwel Jones*

## Hwyl a Sbri yn Llangefni

Braint oedd cael cwmni tîm o fyfyrwyr blwyddyn gap o Goleg y Bala ym Mhlas Arthur, Llangefni, ar 11 Chwefror. Daeth dros 30 o blant o wahanol ysgolion Sul Ynys Môn at ei gilydd i gael hwyl a chlywed hanes Iesu yn porthi'r pum mil. Diolchwn i Dduw am waith y coleg a hyderwn y bydd mwy o blant yr ynys yn gallu mynychu cyrsiau'r coleg.

*Alun Morton Thomas*



# Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 2 Toredig (Detholiad)

**Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon**

Pwy yn eich bywyd fu'n gymydog ichi? Beth wnaethon nhw i'ch helpu chi?

**Darlleniad o'r Ysgrythur: Luc 10: 25–37 'Y Samariad Trugarog'**

**Ystadegau**

**Mae 1 o bob 3 oedolyn anabl o oed gweithio yn byw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig.**
Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree

**Gofynnodd Arolwg ar Agweddau Cymdeithasol ym Mhrydain 2022 i bobl a fuasen nhw'n ystyried rhywun 'mewn tlodi' â'r disgrifiadau canlynol:**

| | |
|---|---|
| 79% Yn cytuno | Methu fforddio bwyta na byw heb ddyled |
| 66% Yn cytuno | Yn medru fforddio bwyta a byw ond yn methu fforddio anghenion eraill |
| 39% Yn cytuno | Yn medru fforddio anghenion ond yn methu fforddio pethau eraill mae eraill yn eu cymryd yn ganiataol |

**Beth wnewch chi o'r disgrifiadau hyn o dlodi?**

**Myfyrdod**
Sut fedrwn ni fynd i'r afael â chymdeithas doredig ac ymraniadau yn ein cyd-destun ninnau? Beth ydyn ni'n ei wneud i ddangos cariad at ein cymdogion? Pwy ydyn ni'n 'mynd heibio iddyn nhw ar yr ochr arall'?

Yn yr Efengylau, dywed Iesu nad ydy'r byd fel ag y dylai fod. Mae gweithredoedd pechadurus yn achosi niwed i ni ein hunain ac eraill. Mae angen maddeuant ac iachâd arnom i gyd. Nid neges i ddilynwyr Iesu yn y ganrif gyntaf oedd hon. Wrth inni edrych o'n cwmpas heddiw, fe welwn systemau toredig sy'n dwysáu dioddefaint ac yn cau pobl allan o gymdeithas. Nod y sesiwn ydy cynnal man agored lle y gall pob un ohonon ni siarad am yr hyn sydd wedi ei ddryllio yn ein byd, lle gwelwn ni dorri ac ymraniadau.

Yn ein darlleniad o Efengyl Luc, fe welwn ganlyniadau ymraniadau sy'n cael eu bwydo gan ofn. Wyddon ni ddim yn union pam fod yr Offeiriad a'r Lefiad yn y stori mor awyddus i frysio heibio'r dyn yr ymosodwyd arno ond mae'n ymddangos yn debygol i'w ymateb ddeillio'n rhannol ar sail ofn. Oedd arnyn nhw ofn fod y dyn eisoes wedi marw ac y byddai mynd ato efallai'n torri rheolau crefyddol yn ymwneud â delio â chyrff marw? Tybed oedden nhw'n ofni bod lladron yn dal yn y cyffiniau ac y gallen nhw fod yn dargedau hefyd? Oedden nhw ofni mai ffugio oedd y dyn ac mai rhyw fath o dric oedd hyn? Beth bynnag y rheswm, y cwestiwn oedd yn flaenaf yn eu meddyliau oedd: 'Os wna i oedi gyda'r dyn yma, beth fydd yn digwydd i mi?'* Os ydyn ni'n gwbl onest â ni'n hunain, efallai y gallen ni uniaethu â'r reddf hon i'n hamddiffyn ein hunain. Ond mae stori Iesu yn dangos inni sut y gall y cwestiwn hwnnw – 'beth fydd yn digwydd i mi?' – arwain at broblemau. Pan ddechreuwn ni osod ffiniau o amgylch ein cariad a'n consýrn, gan ganolbwyntio'n unig ar ein hunain a'n blaenoriaethau ni, byddwn ni'n troi'n bobl sy'n 'mynd heibio ar yr ochr arall'. Rydyn ni'n amddiffyn ein hunain ar draul rhywun arall.

*Gweler Dr Martin Luther King, Jr., '*I've Been to the Mountaintop*', araith a

Soniodd Dorothee Sölle, diwinydd o'r Almaen, pa mor rhwydd ydy hi i fyw fel 'un sy'n mynd heibio', yn enwedig yn yr oes fodern. Mae llawer ohonon ni'n dibynnu ar bobl sydd mewn swyddi cyflog isel neu sefyllfaoedd o lafur gorfodol, i wasanaethu ein hanghenion. Efallai ei bod hi'n haws i ni os ydy'r bobl hyn yn anweledig – medrwn 'fynd heibio' yn ddifeddwl. Er enghraifft, gall y cadwyni cyflenwi sy'n ein bwydo a'n dilladu fod yn anodd eu datod a'u deall. Welwn ni mo'r gweithwyr dillad ar gyflogau isel wrth inni ddewis ein dillad am y diwrnod na'r ffermwyr hynny sydd yn rhwymau dyled wrth inni hwylio'n te amser brecwast.

Dydy her y stori a adroddodd Iesu ddim yn gorffen gyda'r cwestiwn ynghylch p'un a ydyn ni'n debyg i'r rhai hynny aeth heibio. Samariad oedd y person a aeth i helpu, a'r awgrym yn y stori ydy mai Iddew oedd y dyn sydd wedi'i anafu. Fe fyddai Iesu'n ymwybodol iawn o'r tensiynau gelyniaethus oedd yn bodoli rhwng y Samariaid a'r Iddewon yng nghyd-destun y cyfnod. Fel y croesodd y Samariad y ffordd i helpu, felly mae Iesu'n tywys ei wrandawyr i groesi'r rhaniad rhwng cymunedau'r Samariaid a'r Iddewon. Yn y modd yma, mae'r ddameg yn gwthio'n ôl yn erbyn disgwyliadau'r gynulleidfa. A oes gofyn i ninnau fod yn agored i her debyg i'n rhagdybiaethau a'n rhagfarnau ninnau?

Gadewch inni edrych yn agos ar weithredoedd y Samariad. Wrth weld y dyn â'i anafiadau, fe 'deimlodd drueni drosto'. Nid 'Beth fydd yn ddigwydd i mi?' ond 'Beth fydd yn digwydd i'r dyn yma os af fi heibio?' oedd cwestiwn y Samariad. Mae'n aros ac yn gweithredu. Mae'n trin y dyn yr ymosodwyd arno ac y lladratwyd oddi arno ac yn darparu er ei les, a hynny'r tu hwnt i'w angen ar y pryd.

Y Samariad oedd yr un a 'ddangosodd … drugaredd'. Mae'r gair trugaredd yn cyfleu caredigrwydd cariadus dwfn, empathi, tosturi, parodrwydd i estyn allan. Dyma'r hyn mae Duw'n ei gynnig inni, mewn perffeithrwydd, a'r hyn y mae Duw'n gwahodd y ddynoliaeth i'w adleisio yn ei hymddygiad tuag at ei gilydd.

Mae Iesu'n adrodd stori'r Samariad Trugarog mewn ymateb i gwestiwn cyfreithiwr ynglŷn â charu ein cymdogion fel ni ein hunain. Mae'r cwestiwn 'Pwy ydy fy nhymydog?' yn awgrymu'n syth ryw ymraniad rhwng y rhai hynny y gellid eu cyfri'n gymwys i fod yn gymdogion – pobl y byddwn fel arfer yn dangos trugaredd a thosturi tuag atyn nhw – ac eraill, o'r tu allan.

**Gwrandewch: Stef Benstead, Ymgyrchydd Anabledd –**

https://soundcloud.com/actonpoverty (8 munud).

Mae Stef yn trafod y trafferthion dyddiol sy'n wynebu pobl ag anableddau wrth geisio ymlwybro drwy systemau sydd wedi torri. A ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei nabod, wedi profi anabledd? A ydy profiad Stef yn canu cloch gyda chi? Awgryma Stef ein bod weithiau'n teimlo'n fwy cyfforddus gydag 'elusen' na 'chyfiawnder'. A ydych chi'n cytuno?

**Gwrandewch ar: Y Tad Osvaldo Concepción Marte, SJ, Centro Montalvo –**

https://soundcloud.com/actonpoverty (6 munud)

Mae'r Tad Osvaldo yn siarad am waith Centro Montalvo, y mudiad dros weithredu cymdeithasol ar ran Cymdeithas Iesu (*the Society of Jesus*) yng Ngweriniaeth Dominica. Mae'n cyfeirio at y dull 'Gweld, Meddwl (neu Farnu), Gweithredu' sydd i'w gael ym meddylfryd Cristnogol America Ladin. **Meddyliwch eto: beth wêl y Samariad? Beth sy'n mynd trwy ei feddwl? Sut mae'r hyn mae'n ei weld ac yn ei feddwl yn ei arwain at weithredu?**

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 2 Toredig (Detholiad)*
*(parhad o dudalen 2)*

## Ysbrydoliaeth: Tair eglwys yn creu mannau croeso

Gwyliwch ein ffilm fer (5 munud) yma: https://youtu.be/2fpihBoAsHo
Mae'r ffilm fer hon yn eich gwahodd i glywed gan dair eglwys o wahanol rannau o Loegr sy'n ymateb i'w cyd-destunau trwy greu mannau croesawu i'r rhai hynny sydd wedi profi'r teimlad o gael eu cau allan.

## Taclo Tlodi – Beth allech chi a'ch eglwys yn ei wneud?

Yn y sesiwn hon, fe gawson ni'n hysbrydoli gan waith eglwysi ledled Lloegr. Wrth inni agosáu at Etholiad Cyffredinol eleni, beth ydy rôl yr eglwys yn yr alwad am drugaredd a thosturi gan y rhai hynny mewn grym sy'n cydnabod ac yn cadarnhau urddas dynol pawb?

**Cam 1:** Canfod mwy am y dull Gweld, Barnu, Gweithredu: https://grassroots.caritas.eu/see-judge-act/

Mae'r dull hwn yn eich helpu i edrych yn agosach ar faterion cyfiawnder cymdeithasol; i feddwl sut y gall ein ffydd lunio ein hymateb i'r materion hyn; ac i gynllunio beth i'w wneud i wireddu newid. Ceisiwch ffordd i ymgorffori'r dull hwn yng ngwaith eich eglwys. A ydych chi eisoes yn ymwneud â gweithredu cymdeithasol? A all y dull hwn eich helpu i ganfod ffyrdd newydd ymlaen?

**Cam 2:** Os ydyn ni am ddylanwadu ar y rhai hynny mewn grym, mae gofyn inni wybod beth ydy eu barn. Dechreuwch trwy adeiladu ffeil o ffeithiau am y rhai hynny sydd â grym yn eich hardal chi – megis cynghorwyr a chynrychiolwyr seneddol.

## Gweddi i Gloi – Taclo Tlodi – Gweddi'r Eglwys

Drindod Sanctaidd, ti ydy'r un sy'n rhoi urddas i bawb,
**Atgoffa ni ein bod wedi ein trysori gennyt ti.**
Dduw Cariad, ti ydy'r un sy'n codi'r dinod,
**Atgoffa ni am y rhai o'n mysg nad ydy eu gwerth yn weledig.**
Iesu, ti sy'n dod â newyddion da i'r tlodion,
**Atgoffa ni i estyn allan am gyfiawnder i bawb.**
Ysbryd Glân, ti sy'n rhyddhau'r rhai sy'n gaeth, yn ein herio ac yn ein hysbrydoli,
**Galluoga ni i adeiladu cymdeithas lle mae pawb yn perthyn.**
**Amen.**

*Urzula Glienecke*

## Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf, 3–10 Awst 2024: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru am 7 o'r gloch nos Iau, 21 Mawrth, yn Eglwys St Catherine yng nghanol tref Pontypridd, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd, a hynny ar 3–10 Awst 2024, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Mae'n debyg na fyddwn yn medru cael y stondin fawr arferol eleni oherwydd cyfyngder lle, a bydd yn rhaid edrych am ffyrdd gwahanol i gyflawni ein cenhadaeth.

Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr Eisteddfod.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib gyda'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com




S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 25 Chwefror am 7.30yh**
**Mis Hanes LHDT**
I nodi Mis Hanes LHDTC+, bydd Nia yn yr Almaen yn cwrdd â John Sam Jones, dyn hoyw sydd wedi bod ar daith ysbrydol ryfeddol. Cawn glywed ei stori o faddeuant, trugaredd a chariad.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 25 Chwefror, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parch. Dylan Rhys, Pen-y-bont ar Ogwr

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 25 Chwefror, am 12yp**
Oedfa dan ofal Gareth Morgan Jones, Pontardawe

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)


# MELYS MOES MWY!

## Joseph Rowntree 1836–1925: *Masnachwr Siocled A Chrynwr*




Cofio llowcio Smarties yn blentyn? Mwynhau Aero, Kit Kat neu After Eight? Wedi slipo ambell Fruit Pastille neu Polo i'ch ceg yn llechwraidd pan oedd y pregethwr yn dechrau mynd i hwyl? Os felly, buoch chi'n gwsmer i gwmni Rowntree's, a fu'n diwallu anghenion dannedd melys miliynau ar draws y byd ers 1881.

Ganwyd Joseph Rowntree ar 24 Mai 1836 yn Pavement, Efrog, yn fab i Joseph a Sarah Rowntree. Sefydlodd ei dad fusnes groser ffyniannus a bu'n flaenllaw gyda'r Crynwyr a chyda materion cymdeithasol a dinesig. Cydweithiodd gyda Samuel Tuke i sefydlu ysgolion Bootham a Mount gan y Crynwyr. Addysgwyd y Joseph iau gartref ac yna yn Ysgol Bootham. Pan oedd yn 16 oed fe'i prentisiwyd gan ei dad ac ym 1856 priododd Julia Eliza, merch y masnachwr gwlân a'r Crynwr blaenllaw Benjamin Seebohm. Bu hi farw ym 1863 ac fe briododd ei chyfnither Antoinette Seebohm a chawsant ddwy ferch a phedwar mab. Pan fu farw ei dad ym 1859 cymerodd Joseph at awenau'r busnes gyda'i frawd hŷn, John Stephenson.



### Siocled a *chicory*

Ym 1862 prynodd ei frawd iau Henry Isaac fusnes coco, siocled a *chicory* gan deulu o Grynwyr eraill sef y Tukeiaid. Nid oedd Henry'n ddyn busnes da gan ei fod yn fwy o ddilynwr nac arweinydd ac o ganlyniad gadawodd Joseph ei fusnes groser ym 1869 i ymuno fel partner yng nghwmni ei frawd. Rhanasant y cyfrifoldebau rhyngddynt, Henry i edrych ar ôl y cynhyrchu a Joseph i ofalu am y gwerthiant a'r llyfrau. Roedd Joseph yn fanwl iawn yn ei waith. Roedd yr egin gwmni'n gwneud colled i gychwyn, ond ym 1881 daeth y llwyddiant gwirioneddol cyntaf pan ddechreuasant gynhyrchu losin pastil gyda chymorth y gwneuthurwr fferins Ffrengig Claude Gaget. Hyd hynny roedd y da-da hwn yn cael eu mewnforio o Ffrainc. Pwysleisiwyd ansawdd aruchel y cynnyrch ond yn y cyfnod hwn roedd pobl braidd yn amheus o unrhyw hysbysebu. Bu farw Henry ym 1883 a daeth Joseph yn berchennog y cwmni. Roedd yntau'n ansicr o'r dyfodol oherwydd y ddyled o £21,000, y trosiant blynyddol o £51,118 a'r elw o £2,196.

### Tyfu'n gyflym

Ym 1887 lansiodd Rowntree ei rinflas (*essence*) o goco pur, Elect. Yn raddol ehangodd y busnes a phrynodd 33 erw o dir yn Haxby Road, Efrog i adeiladu ffatri newydd, y Cocoa Works. Corfforwyd y cwmni fel Rowntree & Co. ym 1897. Tyfodd y gwerthiant o tua chan mil o bunnau ym 1890 i ymhell dros filiwn erbyn 1910, a'r gweithlu o 200 i 4,000.

### Dyngarwch

Cysylltwyd y cwmni'n gyson gyda gofal dros y gweithlu a dyngarwch, dwy egwyddor a ddeilliai yn uniongyrchol o ddaliadau Cristnogol dwfn Joseph. Roedd y cwmni yn flaengar wrth ystyried amgylchiadau ac angen y gweithwyr. Edrychai ar ei fusnes fel rhodd gan Dduw ac roedd yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb tuag at ei weithwyr, y gymuned, y perchenogion a'r cyfranddalwyr. Penodwyd swyddog lles ym 1891 oedd yn gyfrifol am y menywod a sefydlwyd adran gyflogi merched yn fuan wedyn. Credai fod amgylchiadau gweithio da yn llesol i'r cwmni. Cychwynnwyd cronfeydd salwch a darbodaeth (*provident*), meddygfa ym 1904, ysgol i ferched ym 1905, cynllun pensiwn ym 1906, ac ysgol i fechgyn ym 1907.

### Hanner ei gyfoeth

Digwyddodd gweithred ddyngarol enwocaf Joseph ym 1904 pan ddefnyddiodd hanner ei gyfoeth i sefydlu tair ymddiriedolaeth:

- y Joseph Rowntree Charitable Trust er mwyn cefnogi ymchwil cymdeithasol, addysg oedolion a Chymdeithas y Cyfeillion
- y Joseph Rowntree Social Trust i ganolbwyntio ar weithgareddau cymdeithasol a gwleidyddol
- y Joseph Rowntree Village Trust oedd yn gyfrifol am adeiladu tai addas a fforddiadwy i'r dosbarth gweithiol.

Bu'n weithredol gyda llu o ymgyrchoedd dyngarol yn cynnwys addysg, dirwest a heddwch rhyngwladol. Ysgrifennodd lyfrau yn cynnwys *The Temperance Problem and Social Reform*. Prynodd bapurau newydd i'w hatal rhag mynd i ddwylo'r Torïaid. Pan ymddeolodd ym 1923 yn 87 oed roedd trosiant y cwmni yn dair miliwn o bunnoedd a'r gweithlu yn saith mil. Bu farw yn ei gartref yn Clifton Lodge, Efrog, ar 24 Chwefror 1925, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent y Crynwyr, Heslington Road, Efrog.

### Ei waddol heddiw

Fe waeth cwmni Rowntree's barhau i fynd o nerth i nerth ar ôl bywyd Joseph, gan brynu sawl cwmni arall. Erbyn 1982 roedd yn cyflogi bron i ugain mil o weithwyr. Ond yn 1988 cafodd ei brynu gan Nestlé, cwmni bwyd mwya'r byd ac nid yw enw Rowntree's bellach ar unrhyw siocled, dim ond y Fruit Pastilles a chynnyrch sudd ffrwyth tebyg. Ac er bod miloedd yn llai o swyddi, mae'r ffatri yng Nghaer Efrog yn dal i fod yn un o ganolfannau cynhyrchu melysion mwya'r byd.

Mae'r Joseph Rowntree Foundation (jrf.org.uk) yn dal i fod yn elusen wrthdlodi flaenllaw, sy'n gweithredu gweledigaeth ddyngarol ei sylfaenydd bron i ganrif ers ei farw.

## Saron Creunant

Eleni y mae eglwys Saron yn dathlu 120 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

1904–2024

Fe'ch gwahoddwn yn gynnes i ymuno gyda ni am
Sul o Fawl/Cymanfa ar yr
31 Mawrth am 4 o'r gloch
Sul y Pasg.

Croeso cynnes i bawb

# Barn Annibynnol

## ‘Felly gadewch inni glosio at Dduw gyda hyder didwyll’ (Hebreaid 10: 22)

Fel Cristnogion, siawns y byddem oll yn gytûn yn ein dymuniad i gael closio at Dduw. Yr hyn fu ar fy meddwl ers dechrau’r flwyddyn hon yw – sut mae modd inni barhau i glosio ato gyda hyder didwyll mewn gwirionedd? Gwyddom wrth gwrs am yr angen i addoli, agor y Gair, gweddïo a chymuno. Ond a ydy closio at bobl, at weithgaredd neu ymarfer dda, ac at gredu’n obeithiol hefyd, yn ein harwain gam yn nes at fod yn agored i rym yr Ysbryd?

Gwelais ar Instagram ddyfyniad o ymchwil gwyddonol sy’n dangos bod nesáu at berson arall drwy gofleidio, a gwneud hynny am ysbaid ddigon hir, yn dod â churiad y ddwy galon ynghyd! Yna o chwilio’r we ymhellach, darllenais am guriad calonnau babanod mewn ysbyty yn atsain fel un oherwydd iddynt gael eu gosod yn agos at ei gilydd. Wedyn gwelais stori am berson yn achub ei gyfaill oedd yn dioddef o hypothermia drwy ei gofleidio.

Fe’m hatgoffwyd am hanes Eliseus yn adfywio bachgen o farw’n fyw drwy orwedd arno, ‘gan roi ei geg ar geg y plentyn, ei lygaid ar ei lygaid, a’i ddwylo ar ei ddwylo. Dyma fe’n ymestyn drosto nes i gorff y plentyn dwymo.’ (2 Brenhinoedd 4: 34) Ac o ddarllen y stori eto, dechreuais feddwl: tybed oes modd i ninnau gael ein twymo gan goflaid yr Ysbryd a chael ein hadfywio yn ein calonnau?

Gwyddom, yn ein byw bob dydd, fel y gall cyffyrddiad ar fraich wneud gwahaniaeth, neu estyn llaw am law fod mor fendithiol. Grym cariad yw’r cynhesrwydd rhyngom fel pobl. Mae rhai yn hoff iawn o gwtsio, eraill yn dychryn wrth feddwl am y peth! Mae ofn closio arnom; rydym yn tueddu i aros ymhell ac ymochel rhag agosáu – ofn cael ein gwrthod, ofn bod yn rhan o bethau, ofn gorfod ymwneud â’r hyn sy’n mynd ymlaen, ofn cyfrifoldeb. Mae’n haws aros ar y cyrion, yn y cefn. Fe welwn hynny yn y modd y mae cynifer ohonom yn dewis aros yn rhesi cefn ein capeli, heb glosio i’r blaen!

Yn ei lyfr *The Divine Dance,* dywed y diwinydd Richard Rohr mai, ‘Duw perthnasu, cysylltu, agosáu a chymuno yw ein Duw ni.’ Gwelir hyn yn yr eicon enwog o’r Drindod gan yr artist Rublev. Yn y darlun hwnnw gwelwn y Tad, a’r Mab, a’r Ysbryd Glân yn eistedd o amgylch bwrdd ac yn cyd-gyfathrebu. Mae’r Tad yn edrych ar y Mab, y Mab yn edrych yn ôl tuag at y Tad ac ar yr un pryd yn cyfeirio ei law tuag at yr Ysbryd. Ac yna’r Ysbryd a’i osgo’n agor y cylch ac yn ein gwahodd i gymryd ein lle wrth y bwrdd. Oherwydd rhwng y Tad a’r Ysbryd, mae lle gwag yn barod amdanom. Dyma gylch perthynol felly ac oes, mae lle i ni. Mae’n ddelwedd hyfryd o sut mae Duw yn berthynol a’i elfennau amrywiol Ef ei hun, ac yn ein perthnasu ni gyda hynny. Ac mae lle i’r bedwaredd elfen yn y cylch hefyd, sef ni! Fel y dywedodd y diweddar Barchedig Ddoctor Vivian Jones: ‘Mae symbol y Drindod felly’n galw yr Eglwys i fod yn gymuned mewn perthynas deuluol â’i gilydd … [ac i ddod] i mewn i’r ddawns fywhaol hon.’ (*Menter Ffydd*, 2009 t. 31) A dyna pam y gallwn fod yn ddidwyll yn ein dyheu o gael ‘nesáu mewn hyder at Orsedd Gras.’ (Hebreaid 4: 16)

Felly gyfeillion, ein camgymeriad yw hyn - nid nad ydym yn credu yn yr Ysbryd Glân, ond yn hytrach ein bod yn methu cydnabod ac adnabod ei rym a’i wahoddiad. Oherwydd ein tuedd i geisio dadansoddi a deall popeth, fe all ein bod yn cau allan y posibiliadau o gael ein cyffwrdd gan yr Ysbryd. Wedi’r cyfan, os nad ydym yn agored i fod yn fodlon i’r Ysbryd ein cynhesu a’n cofleidio, yna pa obaith sydd? Byddwn hyderus a chalonogol felly, er ein bod yn gweld dirywiad mewn niferoedd, er ein bod yn anobeithio ar dro, cofiwn fod Ysbryd Duw yn dal ar waith yn ein plith. Yng ngeiriau y diweddar Barchedig Ddoctor Tudur Jones: ‘Hiraeth, nid am yr hyn a fu, ond am yr hyn a ddaw yw gobaith y Testament Newydd. A chynheiliad y gobaith hwn yw’r Ysbryd Glân.’

I gloi, dyma englyn fy nhad, Tecwyn Owen:

Ein Duw sydd yn adfywio – dyry rym
drwy ei ras i’n deffro;
rhed o hyd o’i gariad O
ei lawenydd diflino.

**Sian Meinir**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)

# tearfund

Wrth i ni ailgydio yn ein gweithgareddau ar gychwyn 2024 rydym am gynnig **adnoddau, cyfleoedd** a **newyddion** i’ch helpu trwy brysurdeb y misoedd nesaf a chithau’n eglwys leol sy’n gwneud gwahaniaeth byd-eang.

### Adnoddau’r Grawys

Gan fod y Pasg ym mis Mawrth eleni, mae’r Grawys yn prysur agosáu. Y thema ar gyfer ein myfyrdodau eleni yw ‘**Adferiad’** rhywbeth sy’n digwydd yn y Beibl ac mewn cymunedau ledled y byd sydd wedi’u trawsnewid.

Rydym wedi paratoi nifer o adnoddau digidol (yn Saesneg) a rhai i’w hargraffu ar gyfer eich cynulleidfa a’ch grwpiau bach – yn cynnwys darnau o’r Beibl, gweddïau, cwestiynau myfyriol, a straeon diweddar am adferiad gan ein cydweithwyr a’n partneriaid ym Mangladesh**.**

### Gwahodd siaradwr

Un ffordd wych o ennyn diddordeb eich cynulleidfa mewn dileu tlodi eithafol yw gwahodd siaradwr o Tearfund. Byddai un o’n siaradwyr angerddol, sydd wedi’i hyfforddi’n arbennig, wrth ei fodd yn rhannu straeon ysbrydoledig am drawsnewid bywydau a’r holl ffyrdd y mae eglwysi lleol yn grymuso cymunedau i’w codi eu hunain allan o dlodi. Rydym wrthi’n llenwi dyddiadur 2024, felly y cyntaf i’r felin…!

### Chwyldro sy’n adfer

Nid yw byd sydd ar chwâl yn rhan o gynllun Duw. Dyna pam rydym yn cychwyn ar Chwyldro sy’n Adfer, gwahoddiad i eglwysi a Christnogion ym mhob man i ymgodymu â heriau allweddol yr unfed ganrif ar hugain. Gwyliwch y fideo i weld sut rydym yn cydweithio ag eglwysi ym mhedwar ban y byd i frwydro yn erbyn yr anghyfiawnderau sy’n dal i’n plagio yn 2024.

Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol 2023. Gobeithio y bydd y cylchlythyrau hyn yn eich helpu ac yn eich ysbrydoli i ddal ati i helpu cymunedau i’w codi eu hunain allan o dlodi eithafol trwy gydol 2024 a’r tu hwnt.

Dydi tlodi ddim yn rhan o gynllun Duw. Ond rydych chi.

**Cynan Llwyd**

*Arweinydd Tîm Tearfund Cymru*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*
**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# FFENESTR Y DATHLU

Cafodd ffenestr hardd ei dadorchuddio yng nghapel Saron, Creunant i ddathlu 120 o flynyddoedd ers sefydlu'r achos. Daeth cynulleidfa fawr i lenwi'r capel ar ddydd Sul 4 Chwefror er mwyn dathlu'r achlysur arbennig yma, gan gynnwys Maer Castell-nedd Port Talbot a chynghorwyr yr ardal.

Diolchwn am y nawdd gan Dreftadaeth Cyngor Castell-nedd a wnaeth hyn yn bosib a hefyd i'r arlunydd, Jane Carpenter o Bontardawe (yn y llun) am waith dylunio bendigedig gyda'r ffenestr hardd sydd yn dathlu bywyd yr eglwys yn y gymuned.

Prif thema'r ffenestr yw 'bendithion Duw' gyda'r afon, sef Afon Dulais, yn amgylchynu'r capel o'r top i'r gwaelod. Dyna yn wir yw ein gweddi eleni:

'Pwy bynnag sy'n sychedig, deued ataf fi ac yfed.'
(Ioan 7:37)

**W. Rhys Locke**





## DIWRNOD Y GWEINIDOGION

**Yn y gogledd**

Dydd Mercher, Chwefror 28, 10:00 - 4:00 o'r gloch
Canolfan Byd Mary Jones, Llanycil, Y Bala, LL23 7YF

**Yn y de**

Dydd Iau, Mawrth 7, 10:00 - 4:00 o'r gloch
Amgueddfa Sir Gâr, Parc yr Esgob, Abergwili, Caerfyrddin, SA31 2JG

### Thema'r Diwnod: Golwg ar y Byd

**Rhagflas o gynnwys y sesiynnau:**

**Astudiaeth Feiblaidd - Parchg Carwyn Siddall**

Testun: "Dwedodd [Iesu] wrthyn nhw, "Ewch i gyhoeddi'r newyddion da i bawb drwy'r byd i gyd. " (Marc 16:15 beibl.net).

**Diwinyddiaeth Heddiw - Parchg Ddr Amelia Koh-Butler**

Cyfle i glywed am yr amrywiol faesydd sy'n cael eu harchwilio o ogwydd Ddiwinyddol ar hyn o bryd gan CWM, a chael cyfle i drafod perthnasedd y pynciau hyn i ni a'n cyd-destun eglwysig.

**"Dy Feibl di o'm safbwynt i" - Parchg Jeff Williams**

Dylanwad cyd-destun ar ein dehongliad a'n dealltwriaeth o'r Beibl. Pan ymwelodd y Pab John-Paul II â De America cyflwynwyd Beibl iddo gan gynrychiolwyr o grwpiau pobl brodorol Periw, "John-Paul, 'rydym ni, Indiaid yr Andes, yr rhoi dy Feibl nôl i ti, oherwydd mewn pum canrif nid yw wedi rhoi cariad, na heddwch na chyfiawnder i ni."

**Cymdeithas y Beibl yng Nghymru - Sian Wyn Rees**

Cyflwyniad ar waith Cymdeithas y Beibl yma yng Nghymru ac yn ehangach, ynghyd â chyfle i glywed am rai o'r adnoddau sydd ar gael, a sut all yr eglwysi a Chymdeithas y Beibl gydweithio ymhellach yng nghyd-destun cenhadu a rhannu Gair Duw.

**Hefyd...**

**Defosiwn:**
Arweinir gan Staff Byd Mary Jones yn y Gogledd, a'r Parchg Catrin Ann Thomas yn y De

**Y lleoliadau:**
Cyfle i weld y ddwy ganolfan

**Adnoddau:**
Cyflwyniad a chyfle i brynu adnoddau diweddaraf Cyhoeddiadau'r Gair

**Awydd dod?**

Cofrestrwch drwy gysylltu â'r Parchg Carwyn Siddall
carwyn@annibynwyr.cymru
neu
01792 795888

Darperir cinio i bawb. Rhowch wybod am unrhyw anghenion dietegol.



✦ Cyfres Newydd ✦ Cyfle Newydd ✦ Ffurf Newydd ✦

Cyfle gwych i ymuno mewn cyfres o chwe sesiwn fydd yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd eglwysig.

✦ Gweddïo ✦ Arwain Addoliad ✦ Pregethu ✦ Beth yw Eglwys ✦
✦ Gwaith Plant ac Ieuenctid ✦ Gwedd Ddigidol Eglwys ✦

**Dyddiadau:**
08/01 22/01 05/02 19/02 04/03 18/03

**Amser:**
7:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr.

**Lleoliad:**
Bydd modd ymuno yn y sesiynau hyn drwy fynychu eich Hwb Hyfforddi lleol. Manylion llawn pob lleoliad ar y daflen wybodaeth.



**Awydd ymuno? Croeso cynnes i bawb!**

Trefnir y sesiynau hyn fel rhan o gynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | Gwybodaeth pellach: carwyn@annibynwyr.cymru

| Dyddiad | Testun | Arweinydd |
|---|---|---|
| Mawrth 4 | Gwaith Plant ac Ieuenctid | Parchedig Owain Davies |
| Mawrth 18 | Gwedd Ddigidol Eglwys | Rhodri Darcy |

**Cynhelir pob sesiwn rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch yr hwyr**


*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*